Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

# GRANT CAFFAELIAD ASEDAU'R AWDURDOD LLEOL CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DEYRNAS UNEDIG

## Canllawiau 2024

## 1.0 Y RHESWM DROS Y GRONFA:

Bwriad y grant yw cynnig cefnogaeth ariannol i sefydliadau yn sector yr economi gymdeithasol. Bydd y grant yn galluogi sefydliadau i brynu asedau oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y mae ganddynt brydles/ drwydded ar eu cyfer ar hyn o bryd.

Wedi ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig, bwriad y rhaglen grant yw cyfrannu at ddarpariaeth amcanion ffyniant Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

- Creu swyddi a hybu cydlyniad cymunedol, trwy fuddsoddiadau sy'n cryfhau'r diwydiannau a sefydliadau presennol, ac sy'n amrywio o gymorth i ddechrau busnesau i welliannau gweladwy i gyfleusterau manwerthu, lletygarwch a'r sector hamdden leol.
- Hyrwyddo rhwydweithio a chydweithio, drwy ymyriadau sy'n dwyn ynghyd fusnesau a phartneriaid o fewn sectorau ac ar draws sectorau er mwyn iddynt rannu gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau ac i ysgogi adnewyddiad a thwf.
- Adfer ymdeimlad o gymuned, o falchder lleol, a'r ymdeimlad o berthyn yn arbennig yn y llefydd hynny lle gwelwyd eu colled.
- Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol, yn enwedig yn y mannau hynny sydd heb asiantaeth leol.

Os fydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw golwg ar eich prosiect a'u fesur yn erbyn y canlyniadau perthnasol sy'n benodol i ymyriadau Llywodraeth y DU. Bydd y manylyn hwn wedi ei gynnwys yn y llythyr cynnig grant. Am ragor o wybodaeth gweler UK Government Shared Prosperity Fund Prospectus

## 2.0 BETH ALL Y GRONFA EI ARIANNU:

**Bydd Grant Caffaeliad Asedau'r Awdurdod Lleol Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig yn ariannu:**

- Pryniant ased sydd ar hyn o bryd yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Costau TAW os nad yw'r sefydliad wedi cofrestri ar gyfer TAW

**Gwariant Anghymwys:**

- Unrhyw fath o gostau refeniw. Petai chi'n dymuno ariannu ffioedd proffesiynol, gweler Grant Ffioedd Proffesiynol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.
- Costau i brynu cerbydau
- Hurbrynu/Prynu Prydles
- Costau megis rhent, trethi, gweinyddu, cerbydau; cost gwaith sy'n cael ei wneud fel gofyniad statudol cyfreithiol
- Costau sy'n ymwneud â'r treuliau arferol o gynnal y sefydliad
- Costau wrth gefn a Chyfleustodau
- Gweithdrefnau statudol megis caniatâd cynllunio neu reoliadau adeiladu
- Offer / eitemau sydd â defnydd blynyddol unwaith ac am byth neu y tybir eu bod yn dymhorol,
- Costau ôl-weithredol h.y. costau ar gyfer gwaith neu gyfarpar sydd eisoes wedi'i wneud/ eu prynu,
- Costau TAW ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW
  Costau staff/Marchnata

## 3.0 PWY ALL YMGEISIO:

**Gallwch wneud cais i'r Grant Caffaeliad Asedau'r Awdurdod Lleol Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig os ydy'ch sefydliad:**

- Yn fusnes cymdeithasol o unrhyw fath e.e. yn fenter gymdeithasol, grŵp cymunedol cyfansoddiadol (un sy'n ymgorfforedig yn ddelfrydol), elusen, CBC, clwb chwaraeon, sefydliad ieuenctid, grŵp addoli, cymdeithas preswylwyr ac ati.
- Ar hyn o bryd yn dal prydles/trwydded ar ased cymunedol ym Merthyr Tudful a hoffech brynu'r ased.

**Nid ydych yn gymwys i wneud cais i'r Grant Caffaeliad Asedau'r Awdurdod Lleol Cronfa Ffyniant Gyffredin Y Deyrnas Unedig os:**

- Ydych yn fusnes preifat
- Nad ydych yn rheoli/ prydlesu ased gan yr Awdurdod Lleol.
- Ydych yn fusnes / grŵp cymdeithasol heb gyfansoddiad,
- Ydych yn fusnes cymdeithasol / grŵp heb gyfrif banc sefydliadol,
- Oes gan y sefydliad/ymgeisydd unrhyw ôl-ddyledion gyda'r Cyngor.

## 4.0 AM FAINT GALLAF YMGEISIO:

Bydd y grant yn ariannu hyd at 50% o gostau prynu cymwys yn seiliedig ar brisiad a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

## 5.0 AMSERLEN ARIANNU:

| Gweithgaredd | Amserlen/Dyddiad Cau |
|---|---|
| Cynlluniau Grant yn Agor | Dydd Gwener 8fed Mawrth 2024 |
| Dyddiad Cau Cais | 5pm Dydd Gwener 3ydd Mai 2024 |
| Penderfyniad i ymgeiswyr | Erbyn 31ain Mai 2024 |
| Monitro ac Ymgysylltu | Mehefin – Rhagfyr 2024 |
| Monitro Terfynol a Chau Grant | 18 Rhagfyr 2024 |

## 6.0 GWYBODAETH BELLACH:

Cyn y dyddiad cau bydd yn rhaid i chi gyflwyno ffurflen gais wedi ei chwblhau’n gyfan gwbl gan gynnwys yr holl wybodaeth gefnogol angenrheidiol a nodir yn rhestr wirio’r ffurflen gais.

Trwy gyflwyno’r cais hwn rydych yn cytuno eich bod wedi rhoi gwybod i berchennog yr ased o’ch bwriad i ymgeisio a bod hynny wedi ei gytuno gan y ddau ohonoch.

**Dalier sylw:** Ni fydd ffurflenni cais sydd ond wedi eu cwblhau’n rhannol yn cael eu hasesu, felly, sicrhewch os gwelwch yn dda eich bod wedi cwblhau pob adran o’r ffurflen gais a’ch bod wedi cyflwyno’r holl ddogfennau perthnasol.

Cyn cyflwyno’r ffurflen gais, mae’n rhaid i chi gysylltu ag adran Ystadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i drafod eich bwriad fel bod eich sefydliad yn gwbl ymwybodol o’r gweithdrefnau sydd ar waith wrth brynu ased oddi wrth yr Awdurdod Lleol. Estates.Department@merthyr.gov.uk Bydded hysbys y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu'n bennaf i gefnogi prynu'r asedau hynny sydd wedi'u nodi fel blaenoriaethau i'w gwaredu arnynt gan CBSMT.

Bydd yn rhaid i sefydliadau ariannu eu costau eu hunain mewn perthynas â phrynu’r ased (e.e. costau cyfreithiol, archwiliadau perthnasol). Gweler Grant Ffioedd Proffesiynol y Gronfa Ffyniant Gyffredinol os oes angen cymorth ariannol arnoch.

Dalier sylw, fel rhan o delerau cytundebol y gwarediad, bydd cyfamod cyfyngu/cadarnhaol yn cael ei osod yn datgan y bydd yr eiddo/ased yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymunedol.

Ni fydd unrhyw ryddhau o'r cymal defnyddiwr cytundebol yn cael ei ystyried yn y 10 mlynedd gyntaf ar ôl prynu a byddai darpariaethau adfachu yn berthnasol pe bai cynigion ar gyfer defnydd amgen os/pan roddir rhyddhad.

O ran Trosglwyddo Ased, ni fydd unrhyw waredu heb dystysgrif caniatâd wedi'i llofnodi gan CBSMT neu ei olynwyr. Gellir atal caniatâd i waredu os yw’r trosglwyddiad i sefydliad na fyddai’n cyflawni’r diben o werthu at ddefnydd cymunedol.

Bydd dewis i brynu’n ôl hefyd yn cael ei gynnwys, o blaid y Cyngor, rhag ofn bydd y sefydliad sy’n prynu’r ased yn peidio â bodoli, yn mynd yn fethdalwr, yn dymuno cau ac ati.

Ni fydd grantiau yn cael eu cynnig na’u talu os ydy’r busnes neu’r ymgeisydd mewn ôl-ddyled i’r Awdurdod Lleol. Caiff gwiriadau eu cynnal yn ôl yr angen.

Telir arian y grant drwy BACS i gyfrif banc y busnes wedi i ni dderbyn y dogfennau cyfreithiol priodol, sy’n cytuno i werthu’r ased.

Rhaid bod pob pryniant wedi eu cwblhau erbyn y 18fed o Ragfyr 2024 gyda thystiolaeth o’r holl wariant wedi ei gyflwyno.

Byddwn yn derbyn ffurflenni cais a’r dogfennau drwy e-bost. Os gwelwch yn dda, cyflwynwch eich cais i economic.development@merthyr.gov.uk

Dalier sylw hefyd, os gwelwch yn dda, nad yw cyflwyno cais yn sicrhad o nawdd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch ag economic.development@merthyr.gov.uk yn y lle cyntaf

## 7.0 RHESTR FER A MEINI PRAWF ASESU:

Bydd eich cais yn destun gwiriad dilysu cychwynnol i sicrhau eich bod wedi cyflwyno'r holl wybodaeth gywir. Yn ogystal â hynny, bydd pob sefydliad / busnes yn mynd trwy wiriad diwydrwydd dyladwy fel rhan o amodau ein prosesau grant.

Yn ystod ail gam yr asesiad bydd pob cais yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf canlynol gan banel arbenigol:

- Gwerth am arian
- Creu Swyddi/ Diogelu Swyddi
- Effaith Economaidd-gymdeithasol
- Canlyniadau'r Prosiect
- Y galw
- Cynaladwyedd / hirhoedledd y Prosiect/ Gwaith
- Amserlen y Prosiect

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Tîm Menter drwy anfon e-bost at economic.development@merthyr.gov.uk**

LEVELLING UP FFYNIANT BRO